The Electoral Commission

Refferendwm yr UE: Diweddariad i ymgyrchwyr Rhif 9

Mai 2016

Ymunwch â'n rhestr ddiweddaru

Gallwch danysgrifio i gael y diweddariadau hyn ar ein gwefan neu drwy ffonio 0333 103 1928

Cynhelir refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar 23 Mehefin 2016.

Ni sy'n rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Rydym yn cofrestru ymgyrchwyr ac yn rheoleiddio eu gwariant a'u rhoddion mewn refferenda.

Ein nod yw sicrhau uniondeb a thryloywder o ran cyllid a gwariant ar ymgyrchu i bleidleiswyr.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi diweddariadau, gan ddarparu canllawiau ychwanegol i ymgyrchwyr ar unrhyw newidiadau i'r rheolau, arfer gorau ar gyfer ymgyrchwyr a dyddiadau allweddol a dyddiadau cau.

Ynglŷn â'r diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- mynychu'r digwyddiad cyfrif cenedlaethol
- Digwyddiad briffio'r Prif Swyddog Cyfrif i ymgyrchwyr
- adrodd cyn y bleidlais
- argraffnodau
- cydweithio
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Mynychu'r digwyddiad cyfrif cenedlaethol

Dros nos ar 23 Mehefin 2016, Neuadd y Dref ym Manceinion fydd yn cynnal cyfrif y DU a datganiad y canlyniad terfynol.

Bydd Neuadd y Dref hefyd yn cynnal cyfrif a datganiad rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan aelodau o'r wasg neu ymgyrchwyr cofrestredig a hoffai fynychu'r digwyddiad cyfrif cenedlaethol. Noder y bydd angen achrediad ymlaen llaw arnoch er mwyn cael mynediad i Neuadd y Dref ac ni fydd yn agored i aelodau o'r cyhoedd oni bai eich bod yn aelod o'r cynllun arsylwyr statudol. Peidiwch â gwneud cais ar hyn o bryd. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi cyn gynted ag y bydd y broses achredu wedi agor gyda manylion sut i wneud cais.

Noder hefyd na fydd unrhyw bapurau pleidleisio yn cael eu cyfrif yn Neuadd y Dref. Bydd cyfrif lleol Manceinion yn cael ei gynnal gerllaw ym Manceinion Canolog ac mae proses gofrestru ar wahân i fynychu'r lleoliad hwn. I fynychu'r cyfrif a'r datganiad lleol ym Manceinion Canolog bydd angen i chi gysylltu â swyddfa'r wasg Cyngor Dinas Manceinion yn uniongyrchol i gael manylion.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i sicrhau tryloywder y broses refferendwm a bydd yn gweithio i sicrhau bod cymaint â phosib o geisiadau ar gyfer achredu yn llwyddiannus ond byddwch yn ymwybodol y bydd y galw am achrediad y cyfryngau yn fwy o lawer na'r hyn a ganiateir yn y lleoliad a bydd system flaenoriaethu gaeth ar waith.

Digwyddiad briffio'r Prif Swyddog Cyfrif i ymgyrchwyr

Ar 27 Ebrill, cyfarfu Jenny Watson, y Prif Swyddog Cyfrif ac Andrew Scallan, y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif gydag ymgyrchwyr refferendwm i'w briffio am drefniadau gweinyddol y refferendwm.

Roedd y digwyddiad briffio yn cwmpasu'r canlynol:

- Y fframwaith rheoli ar gyfer y refferendwm
- Rôl y Prif Swyddog Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif yn y refferendwm
- Hawliau ymgyrchwyr
- Y prosesau etholiadol - pleidleisio drwy'r post, diwrnod pleidleisio a'r broses dilysu a chyfrif

Mae sleidiau'r cyflwyniad a ddefnyddir ar gyfer y digwyddiad briffio a deunyddiau ategol eraill a roddir i fynychwyr ar gael yn y dolenni canlynol:

Digwyddiad briffio'r Prif Swyddog Cyfrif i ymgyrchwyr cofrestredig
Amserlen y refferendwm
Cod ymddygiad i ymgyrchwyr
Rhifwyr - pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud

Adrodd cyn y bleidlais

Y dyddiad cau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig i gyflwyno eu hadroddiad cyntaf cyn y bleidlais oedd 28 Ebrill a'r dyddiad nesaf ar gyfer adrodd cyn y bleidlais fydd **19 Mai.** Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi manylion yr adroddiad cyntaf cyn y bleidlais ar ein gwefan ddydd Mercher 11 Mai.

Mae'r adroddiad cyntaf cyn y bleidlais yn cwmpasu rhoddion a dderbyniwyd a benthyciadau a gafwyd gan ymgyrchwyr cofrestredig dros £7,500 yn y cyfnod 1 Chwefror - 21 Ebrill. Os byddwch yn cofrestru ar neu ar ôl 22 Ebrill, rhaid i'ch adroddiad cyntaf gynnwys yr holl roddion a gafwyd a'r holl fenthyciadau a drefnwyd dros £7,500 o 1 Chwefror. Cewch ragor o wybodaeth am adrodd cyn y bleidlais yn ein canllawiau: Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE.

I weld rhestr lawn o ddyddiadau cau adrodd pwysig, gweler ein canllawiau Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE.

Argraffnodau

Rydym yn derbyn llawer o ymholiadau am argraffnodau gan bleidleiswyr sy'n pryderu pan fydd argraffnod ar goll. Mae'n rhaid ychwanegu argraffnod at yr holl ddeunydd refferendwm wedi'i argraffu a gyhoeddir yn ystod cyfnod y refferendwm (15 Ebrill - 23 Mehefin 2016) er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am ei lunio. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder ynglŷn â phwy sy'n ymgyrchu yn y refferendwm.

Ar ddeunydd print megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad y canlynol:

- yr argraffwr,
- yr hyrwyddwr

Yr hyrwyddwr yw'r sawl sydd wedi achosi i'r deunydd gael ei argraffu. Os ydych wedi cofrestru â ni fel ymgyrchydd refferendwm, gall hwn fod y sawl y rhoddwyd gwybod i ni mai ef oedd yr 'unigolyn cyfrifol', neu rywun a awdurdodwyd ganddynt i fynd i wariant.

Dim ond honiadau am argraffnodau yn ysgrifenedig (yn cynnwys drwy e-bost) y byddwn yn eu hystyried, ac nid ydym yn ystyried honiadau dienw. Dim ond honiadau a ategir gan rywfaint o dystiolaeth, neu sy'n nodi ffynonellau tystiolaeth credadwy y byddwn yn eu hystyried.

Mae ein dull gorfodi yn gymesur, yn effeithiol ac yn deg,
sy'n golygu, lle y bo'n bosibl, ein bod yn datrys materion drwy ddarparu canllawiau, hyd yn oed lle nad oes trosedd wedi'i chyflawni. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach yn ein polisi gorfodi.

Cydweithio

Mae ymgyrchwyr yn aml yn dewis cydweithio ar ymgyrch ar y cyd. Mae rheolau refferendwm yn caniatáu cydweithio. Ystyr cydweithio yw gwario arian o ganlyniad i gynllun neu drefniant cydgysylltiedig rhwng dau ymgyrchydd neu fwy yn ystod cyfnod y refferendwm y bwriedir iddo hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall. Mae ein canllawiau yn rhoi enghreifftiau o gydweithio a gallwch gysylltu â ni am gyngor os nad ydych yn siŵr p'un a ydych yn cydweithio ag ymgyrchwyr eraill.

Ceir rheolau gwariant sy'n gymwys os ydych yn gweithio gydag ymgyrchwyr eraill ac mae'n bwysig eich bod yn deall y rheolau hyn er mwyn sicrhau nad ydych yn mynd y tu hwnt i'ch terfyn gwariant.
Os byddwch yn cydweithio â grwpiau ymgyrchu eraill nad ydynt yn grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig, yna bydd swm cyfun y gwariant y bydd y ddau ohonoch yn mynd iddo mewn perthynas â'r refferendwm tuag at y cynllun wedi'i gydlynu yn cyfrif tuag at y terfyn gwario ar gyfer pob ymgyrchydd dan sylw. Pan fyddwch yn cydweithio gydag ymgyrchydd arweiniol dynodedig, bydd yr holl wariant y byddwch yn mynd iddo wrth gydweithio yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r grŵp ymgyrchu arweiniol.

Mae'n bwysig eich bod yn trafod ac yn cynllunio unrhyw weithio ar y cyd gydag ymgyrchwyr eraill a bod gennych gynllun ysgrifenedig clir am eich ymgyrch ar y cyd ac awdurdodiad ysgrifenedig ar gyfer gwariant yr eir iddo, beth y gallwch wario arian arno a faint y gallwch ei wario.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau: Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE.

Cwestiynau Cyffredin

Gorbenion a chostau gweinyddol

Gofynnwyd nifer o gwestiynau i ni am sut i roi cyfrif am orbenion a chostau gweinyddol o ran gwariant ar gyfer y refferendwm. Mae ein canllawiau yn egluro bod yn rhaid i chi gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'ch gweithgaredd ymgyrchu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys biliau ffôn ar gyfer eich swyddfa. Dim ond ar gyfer gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar y refferendwm y mae angen i chi gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddol. Dylech lunio asesiad gonest o'r swm rydych wedi'i wario, yn seiliedig ar y ffeithiau.

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â rhoi cyfrif am y costau hyn, cysylltwch â ni am gyngor.

Gwirfoddolwyr a stondinau ar y stryd

Rydym wedi derbyn cwestiynau yn ddiweddar am sut mae'r rheolau cydweithio yn berthnasol i grwpiau ymgyrchu lleol sy'n cyfuno adnoddau a thaflenni gan y grwpiau ymgyrchu cenedlaethol mewn digwyddiadau lleol a stondinau ar y stryd. Fel y nodwyd yn y diweddariad hwn i ymgyrchwyr, cydweithio yw gwario arian o ganlyniad i gynllun neu drefniant cydgysylltiedig rhwng dau ymgyrchydd neu fwy y bwriedir iddo hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n

ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Gellir ystyried cyfuno adnoddau a thaflenni mewn digwyddiadau lleol a stondinau ar y stryd fel cydweithio rhwng grwpiau ymgyrchu lleol, fodd bynnag, efallai na fydd y defnydd o adnoddau ymgyrchu cenedlaethol o reidrwydd yn cynnwys y grwpiau hyn yn y trefniant. Byddai angen eu cytundeb a'u trefniant fel rhan o gynllun cydgysylltiedig er mwyn ei ystyried fel cydweithio. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau: Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau. Cysylltwch â ni ar 0333 103 1928 neu yn pef@electoralcommission.org.uk

Neu defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod:

- Lloegr a Gibraltar: pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929 gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Am wybodaeth arall ynglŷn â'r refferendwm

Ar ein gwefan, www.comisiwnetholiadol.org.uk, gallwch weld:

- rhagor o wybodaeth ynglŷn â'n rôl mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar gyfer cynnal refferenda
- y ffordd rydym yn asesu cwestiynau refferenda
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiadau ar y Bil sy'n esbonio ein safbwynt ar ddarpariaethau lle y bo'n briodol.